Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: Dydd Llun, 13 Gorffennaf 2009

Teitl: Prifysgolion Cymru'n dangos eu gwerth economaidd

Mae prifysgolion yng Nghymru wedi gwneud yn dda eleni eto mewn arolwg blynyddol sy'n dangos sut mae sefydliadau addysg uwch (AU) yn gweithio gyda busnes ac yn creu busnes.

Dengys ffigurau newydd ar gyfer blwyddyn academaidd 2007/08 fod prifysgolion Cymru unwaith eto wedi sicrhau mwy na'u cyfran ddisgwyliedig ar draws ystod o ddangosyddion economaidd, sy'n cynnwys cychwyn busnesau newydd gan staff a myfyrwyr AU.

Drwy barhau i lwyddo mewn meysydd lle y maent yn draddodiadol wedi gwneud yn dda, mae SAUau Cymru hefyd yn mynd yn erbyn y dirywiad sydd i'w weld ar hyn o bryd ym mherfformiad cyffredinol y DU, wedi'i achosi'n bennaf gan y dirwasgiad presennol.

Meddau'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Mae'r canlyniadau hyn yn dangos pwysigrwydd prifysgolion Cymru i economi Cymru, yn enwedig yn y sefyllfa economaidd anodd bresennol. Maen nhw'n dangos bod y gwaith sylweddol mae prifysgolion wedi'i wneud gyda busnesau wedi talu ar ei ganfed, a pha mor bwysig ydy staff a graddedigion fel entrepreneuriaid.

"Fe fyddwn ni'n parhau i helpu ac annog prifysgolion Cymru i wneud y gwaith pwysig hwn, ac i ddatblygu ymhellach mewn meysydd megis ymchwil contract lle mae'r arolwg yn dangos bod lle i wella."

Er bod addysg uwch yng Nghymru yn cyfrif am tua 5% o'r holl addysg uwch yn y DU, yn 2007/08:

- Roedd Cymru'n cyfrif am **6.2% o incwm prifysgolion y DU** o waith ymchwil cydweithiol a oedd yn cael ei gyllido gan arian cyhoeddus ac arian gan fusnes ac am **13.9% o incwm y DU** o raglenni adfywio a datblygu.

- Roedd Cymru'n cyfrif am **6.2% o'r holl gontractau ymgynghori** gyda mentrau bach a chanolig.

- Roedd Cymru'n gyfrifol am **5.5% o'r holl batentau newydd a ffeiliwyd**.

- Gwelwyd cynnydd yn nifer y busnesau deilliedig (cwmnïau newydd a gychwynnir **gan brifysgol neu ei staff** i elwa'n fasnachol ar wybodaeth sy'n seiliedig ar ymchwil) a'r busnesau newydd a gychwynnwyd gan staff yng Nghymru ac maent hwy'n cyfrif am **15% o'r holl fusnesau deilliedig a busnesau newydd a gychwynnwyd gan staff yn y DU**.

- Mae **5.7% o'r gweithwyr mewn cwmnïau deilliedig gweithredol wedi'u lleoli yng Nghymru**, ac mae ein cyfran o drosiant o'r cwmnïau hyn yn cynyddu hefyd.

- Mae'r canran o **fusnesau newydd a gychwynnir gan raddedigion** yng Nghymru wedi cael ei gynnal ar **9.5%** o'r cyfanswm ar gyfer y DU. Hefyd mae gan Gymru **10.2% o'r busnesau newydd a gychwynnwyd gan raddedigion sydd wedi para am 3 blynedd neu ragor** a 10.8% o'r holl gyflogaeth gysylltiedig.

- Yn ogystal mae Cymru'n gyfrifol am **6.8%** o'r holl ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a'r holl ddyddiau dysgwr AB (addysg barhaus) a ddarparwyd yn 2007/08.

Mae'r wythfed adroddiad blynyddol *Addysg Uwch – Rhyngweithio rhwng Busnes a'r Gymuned* (HE-BCI) yn gyhoeddiad ar y cyd gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) a'r cyrff cyllido addysg uwch yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Diwedd

Nodiadau:
I gael rhagor o wybodaeth cysyllter â
CCAUC: Roger Carter, Pennaeth Ymchwil, Busnes a Chymunedau, 029 2068 2226

Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC), sy'n gyfrifol am weinyddu cyllid y trefnir ei fod ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil y mae SAUau yn ymgymryd ag ef; a
- chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr **hyfforddiant addysgu cychwynnol** ar gyfer athrawon ysgol a chomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant i athrawon.

Yn ychwanegol i'w gyfrifoldebau cyllid, mae CCAUC yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion, dyheadau a phryderon ynghylch cyllid y sector addysg uwch yng Nghymru.